cwmpawd

eglwys efengylaidd gymraeg caerdydd



Rhif 61
Tachwedd 2010

Golygyddol

Gwynn Williams

Cawn ein hannog yn yr Ysgrythur i fod yn ddyfal mewn gweddi dros yr awdurdodau a'r rhai sydd yn llywodraethu drosom. Mewn democratiaeth mae hyn yn golygu gweddïo dros aelodau seneddol a'r llywodraeth sydd ohoni – er efallai nad yw o'n dewis ni yn bersonol. Fel y gwyddom, mae gennym lywodraeth glymblaid ym Mhrydain a hefyd yng Nghymru – sefyllfa nad yw'n digwydd yn aml ac sydd wrth gwrs yn dod â'i hanawsterau arbennig ei hunan.

Gwyddom hefyd mai'r broblem fawr sydd yn wynebu'r llywodraethau hyn yw delio â'r ddyled genedlaethol. Erbyn i'r Golygyddol hwn ymddangos, fe fydd mwy o fanylion ar gael ynglŷn â hyd a lled y torri a fydd ar wariant cyhoeddus, toriadau sydd yn mynd i effeithio ar bob un ohonom maes o law, ac yn mynd i olygu bywyd llai bras i bawb, ac efallai anawsterau ariannol gwirioneddol i rai.

Yn wyneb hyn i gyd, am beth y dylem weddïo?

Yn gyntaf, gweddïwn y bydd y llywodraethau'n delio'n deg â phawb – mae'n anodd ar y gorau bod yn ddiduedd mewn sefyllfaoedd o'r fath.

Yn ail, gweddïwn y bydd heddwch cymdeithasol, ac y bydd cyfraith a threfn yn dal i gael eu cydnabod, yn enwedig wrth i ni weld yr anniddigo cymdeithasol sydd eisoes yn torri allan mewn rhai gwledydd lle y mae problemau cyffelyb.

Yn olaf, gweddïwn y bydd pobl yn sylweddoli bod mwy i fywyd na'r gallu i brynu pethau'r byd hwn, ac mai angen mwyaf ein gwlad yw nid polisi economaidd – er mor bwysig hynny – ond edifeirwch am bechod, a throi yn ôl at Dduw.

Stori Arall?

Phil Ellis

Daeth 2010 ag o leiaf dwy stori Nadoligaidd gynnar.

Digwyddodd y gyntaf yn ôl ym mis Ebrill: Eurfyl ap Gwilym yn sychu'r llawr â Jeremy Paxman ar *Newsnight*. A'r ail? Hanes achub Luis Urzua a'i 32 o gyd-weithwyr o gloddfa San Jose, Chile. Daeth eu hartaith i ben ar Hydref 14, er llawenydd i'r byd yn grwn, wedi dau fis o fodolaeth danddaearol.

Mewn sawl ffordd, roedd y ddwy sefyllfa bellteroedd byd oddi wrth ei gilydd. Dadl wareiddiedig dan oleuadau stiwdio ar y naill llaw; brwydr bywyd a marwolaeth trwy chwys llychlyd 600 metr i lawr yng nghrombil daear De America ar y llall. Defnyddiodd Dr Eurfyl ei feddwl academaidd, miniog i ddadlau achos Cymru yng nghyd-destun gwariant cyllidebol. Dynion 'cyffredin' oedd dan ddaear – er bod eu dewrder a'u disgyblaeth frawdgarol wedi peri i ni ail-ddiffinio ystyr y gair yna.

Ond roedd dau beth yn gyffredin i'r ddau achos – ac yn eu clymu at y Nadolig. Beth, yn arbennig, oedd yn ein cyfareddu am berfformiad Dr Eurfyl ac am orchest pobl Chile? Fe dybiwn i mai un o

elfennau mwyaf pwerus y ddwy stori oedd mai sôn yr oeddent am bobl yn ennill buddugoliaeth hollol annisgwyl yn wyneb gwrthwynebiad a ymddangosai'n gyfan gwbl drech na nhw. Pwy fase'n meddwl? Pan ddechreuodd y gwleidydd-laddwr gyfweld â Chymro bach anhysbys nad oedd e braidd yn gallu ynganu ei enw, a oedd ganddo unrhyw amgyffred o'i dynged ar y noson anfarwol honno? Nid Cymry yn unig oedd â'u calonnau'n curo'n gynt o weld y cawr profiadol, hunan hyderus yn cael ei falu ar faen-melin deallusol yr economydd o Ysgol Ardwyn. A phwy fase'n meddwl y deuai'r 33 yn rhydd? Pa obaith oedd i ddynion a oedd wedi byw'r 17 dydd cyntaf ar lwyaid te o bysgod tiwna a chwpan o laeth yr un? Sut y bydden nhw'n goroesi mewn gofod mor fach? Sut y byddai ymgyrch achub gwlad dlawd yng nghanol anialwch Atacama yn llwyddo yn wyneb sialens dechnolegol enfawr? A fyddai'r tyllu yn cael ei orffen mewn pryd? A fyddai'r siafft yn dal?

Mae canrifoedd o draddodiad ac ymgyfarwyddo yn gallu peintio cot drwchus o anocheleidd-dra dros stori Mair a Joseff a'r baban. Go iawn, brwydr gyffrous o lwyddiannus yn wyneb gwrthwynebiad enbyd ar bob tu oedd y Nadolig cyntaf: y sgandal a amgylchynai Mair, y ferch ifanc, ddi-briod, feichiog; trawma taith anamserol ar gefn anifail ar hyd y ffordd amrwd rhwng Nasareth a Bethlehem; amodau genedigaeth a oedd, o bosib, heb hyd yn oed hynny o gysur ac arbenigedd a oedd ar gael ar y pryd; plentyndod dan gysgod seicopathig y Brenin Herod; bywyd ffoadur yng ngwareiddiad dieithr yr Aifft; magwraeth mewn gwlad lle roedd cenedlaetholdeb derfysgol yn rhan o'r ffordd o fyw. Yr eironi yw, gan mai proffil mor radical a chwyldroadol sydd gan Iesu, fod rhai yn dal i'w hawlio fel yr un sy'n cadarnhau trefn y sefydliad yn hytrach nag un sy'n gosod marc cwestiwn enfawr yn erbyn pob athroniaeth a dogma 'gonfensiynol'.

Ond yr ail beth sy'n clymu'r cyfweliad a'r cloddwyr at ei gilydd – ac at y Nadolig – yw hyn: roeddent ill tri yn ddigwyddiadau cyhoeddus iawn. Yn achos ymryson Dr Eurfyl, mae nifer y bobl sydd wedi bwrw'r *youTube* yn tynnu at 10,000. Erbyn y diwedd, mae'n debyg bod 250 cwmni cyfryngol a 2000 o ohebyddion o bob cwr wedi ymgynnull o amgylch pwll San Jose. Mae maint

y sylw a gafodd geni'r baban bach yn gallu mynd i guddio y tu ôl i ystrydebau cynnes dramodig yr ysgol gynradd. Testun rhyfeddod yw bod geni plentyn i bâr dosbarth gweithiol, di-nod, mewn oes heb na chamera teledu na ffôn symudol na hyd yn oed Twitter wedi denu sylw llys-genhadon tramor gwareiddiadau estron cyfoes yn ogystal â brenin ac uwch-swyddogion y dydd mewn palas yn y brif-ddinas – heb sôn, wrth gwrs, am weithwyr amaethyddol llethrau bryniau Bethlehem.

Mae geiriau Pedr ferthyr yn sefyll fel rhybudd iechyd perthnasol i genhedlaeth sydd mewn perygl o wrthod yr hyn nad yw hi erioed wedi ei bwyso a'i mesur ag amgyffred oedolyn: 'Nid dilyn chwedlau wedi eu dyfeisio'n gyfrwys yr oeddem wrth hysbysu i chwi allu ein Harglwydd Iesu a'i ddyfodiad'. Nid camerâu nac offer fideo, mae'n siŵr, oedd cyfrwng awduron yr efengylau. Ond wedi dweud hynny, ysgrifennu a wnaethant mewn cyfnod pan oedd gan eu darllenwyr gyfle i wirio ac ail-wirio'r hyn a gofnodwyd ganddynt gyda'r ffynonellau gwreiddiol, a phan oedd cyfle gan gyfoedion i chwalu eu tystiolaeth yn rhacs. A dyfynnu Paul ar achlysur arall: 'nid mewn rhyw gongl y gwnaed hyn'.

Nid oes rhyfedd yn y byd fod cymaint yn troi cefn ar bortread o'r Gwaredwr fel ffigwr niwlog sydd fel petai E'n gosod stamp tinsel – er yn ddigon annelwig bellach – ar fateroliaeth a rhialtwch dathliadau seciwlar Nadolig 2010. Ond am wir Grist y Nadolig beiblaidd – wel, onid stori arall yw honno?



llun: www.freeimages.co.uk

Holi Hwn a Hon

Catrin

Mae gen ti flwyddyn brysur o'th flaen: priodi ym mis Tachwedd, a gweithio i UCCF yma yng Nghaerdydd. Beth wyt ti wedi ei fwynhau fwyaf am dy waith mor belled, a beth yw dy obeithion am y flwyddyn fel gweithiwr *Relay*?

Mae'r flwyddyn wedi profi'n fendith enfawr yn barod, er yr holl brysurdeb! Ar ddechrau'r flwyddyn mynychais gynhadledd i ddechrau'r cwrs *Relay* o'r enw *Relay 1*. Ychydig yn ofnus oeddwn i ymlaen llaw, ond roedd hi'n wythnos hyfryd, yn gyfle i gyfarfod â phobl eraill yn yr un sefyllfa â mi, cael rhannu gyda'n gilydd a dysgu llawer o bethau newydd am ras Duw. Mae wedi bod yn anodd cofio'r ddysgeidiaeth hon ar adegau, a'i chymhwyso i'm bywyd. Rwy'n disgyn i ddibynnu arnaf i fy hun yn rhy hawdd, ond yn ara mae Duw yn dangos i mi sut i ddibynnu arno Fo yn unig bob dydd drwy f'atgoffa o'i newyddion da!

Rwy'n gweithio gyda'r Undeb Cristnogol Cymraeg yma yng Nghaerdydd. Roedd hyn braidd yn rhyfedd ar y dechrau, gan mai i hwnnw roeddwn i'n mynd pan oeddwn i yn y brifysgol, ond ers dechrau'r flwyddyn rwyf wedi dysgu llawer am bwrpas yr Undeb Cristnogol yn y brifysgol. Rwyf wedi cael y fraint o weld Duw yn gweithio drwy eu cyfarfodydd arferol a thrwy ddigwyddiadau megis Dŵr Bywiol, sef noson pan ddosbarthwyd poteli dŵr i fyfyrwyr ar ôl noson allan.

Rwy'n gobeithio y byddaf yn gymorth i'r Undeb Cristnogol eleni. Gobeithio y byddaf yn gallu eu helpu i ystyried beth yw'r ffyrdd gorau i gyrraedd y myfyrwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, eu hatgoffa o ras Duw a'u hannog i ddibynnu ar Dduw yn y gwaith. Rwy'n gobeithio y byddaf o gymorth i'r Undeb Cristnogol

Fflur Jones

Saesneg yn ogystal. At hynny, rwy'n edrych ymlaen at weddill yr astudio personol rwyf am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn, pryd y byddaf yn cael cyfle i ddysgu mwy am Dduw a'i Air.

Sut dest ti'n Gristion?
Rhoddodd Duw y fraint i mi o gael fy ngeni i deulu Cristnogol, felly roeddwn yn gwybod yr Efengyl o oedran ifanc. Mewn gwersyll Gristnogol, dangosodd Duw i mi fy mhechod, fy angen am faddeuant a'r ateb anhygoel mae Ef wedi ei ddarparu a'i drefnu ar fy nghyfer yng Nghrist. Ac felly rhoddodd Duw y nerth i mi edifarhau a gofyn am achubiaeth.

Ond wrth adael y gwersyll a mynd nôl i'r ysgol, nid oeddwn yn gweld newid yn fy mywyd ac anghofiais am rodd Duw yn ddigon cyflym. Ail-adroddwyd y broses hon am flynyddoedd:

mynd i'r gwersyll a gweld fy angen, ac wedyn digalonni wrth fynd nôl i fywyd normal a gweld nad oeddwn yn newid.

Pan oeddwn yn 17, siaradodd Duw â mi drwy'r adnodau canlynol:

Gofynnwch, ac fe roddir i chwi; ceisiwch, ac fe gewch; curwch, ac fe agorir i chwi. Oherwydd y mae pawb sy'n gofyn yn derbyn, a'r sawl sy'n ceisio yn cael, i'r un sy'n curo agorir y drws. (Mathew 7:7-8)

Dangosodd Duw i mi fy mod i'n dibynnu ar fy ymdrechion fy hun yn lle arno Ef. Wrth ofyn i Dduw fy achub dro ar ôl tro ac yna digalonni, nid oeddwn yn ymddiried bod Duw **yn** ateb fy ngweddi. Nid oeddwn yn credu bod pob un o'm pechodau – rhai'r gorffennol a'r rhai a oedd eto i ddod – wedi'i ddelio ag ef ar y Groes. Nid oeddwn yn credu bod hynny'n ddigon. Roeddwn eisiau profi fy mod i'n deilwng ac yn haeddu iachawdwriaeth. Sylweddolais fod yr hyn yr oeddwn yn ei wneud yn bychanu gwaith Crist. Mae Crist **wedi** cymryd fy mhechodau arno ei hun, a nawr rwyf **yng** Nghrist ac yn berffaith yng ngolwg Duw, ac ni allaf ychwanegu dim o gwbl at hynny! Mae Duw wedi gwneud y gwaith i gyd drosta i.

Ers hynny mae dibynnu yn unig ar Dduw wedi parahau i fod yn anodd; ar adegau rwy dal yn hoffi ceisio profi fy hun. Ond mae Duw yn amyneddgar ac yn raslon, ac yn fy arwain i weld pa mor wych yw'r hyn mae Ef wedi ei wneud. Fy achub i, pechadur. Yn araf, rwy'n dysgu i lawenhau am na alla i wneud dim, a bod Crist yn llawer mwy na digon.

Beth sy'n gymorth i ti yn dy gerddediad ysbrydol?

Cael fy atgoffa o'r Efengyl drwy bregethau, llyfrau, darllen y Beibl a gweddïo. Yn aml rwy'n dod at yr rhain yn yr agwedd anghywir, eu gwneud er mwyn profi fy hun. Ond wrth gofio neges yr Efengyl, ac wrth ddibynnu ar ras Duw, mae Duw yn fy nghymell i wneud y rhain er mwyn dod i'w adnabod Ef yn well.

Mae rhannu gyda chyd-Gristnogion yn gymorth mawr. Er nad ydw i'n gwneud hynny'n ddigon, mae bod yn onest a chael cyfle i rannu ac annog cyd-Gristnogion yn fendith ac yn fy arwain i garu Duw fwy.

Haf 2010

Mae Haf 2010 wedi hen fynd a dod, ac eto dyma'r cyfle cyntaf inni gael adroddiad yn *Cwmpawd* ar rai o weithgareddau'r gwyliau, o safbwynt unigolion gwahanol o'r eglwys.

Gwersyll Llanmadog

Cestyll tywod, *wide games*, gemau gwirion, creu baner môr-ladron, coginio bisgedi parot, canu, dysgu, gwrando, Parc y Deri, bwyd hyfryd a llawer mwy. Dyma gip ar wythnos y Gwersyll Iau yn Llanmadog fis Awst eleni.

Cafwyd ystod eang o weithgareddau a chyfarfodydd, o ddysgu am berson Duw, y 'Myfi yw', i chware gemau môr-ladron gwirion. Bu wythnos Llanmadog yn llawn bendithion a hwyl. Cefais fy nharo'n fawr yn ystod yr wythnos gyda'r ffordd y mae Duw yn gallu ateb gweddïau mewn ffordd glir a phwrpasol. Trwy arweiniad Dewi Tudur yn y bore ac Emyr James yn y nos cyffyrddodd Duw â chalonnau llawer o'r gwersyllwyr yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn beth i ni fod yn ddiolchgar iawn amdano

Ifan Lewis

F'atgof cynta o'r gwesyll yn Llanmadog 'leni oedd teithio mewn car gorlawn – gyda jyst digon o le i fi a Catrin yn y blaen. A'r ail atgof oedd gofyn i Catrin, 'Ai fi yw e neu a yw'r heol 'ma'n mynd yn gulach ac yn gulach ?' O'n ni wedi gadael yr M4 yn bell tu ôl i ni, ac wedi cwpwl o *hairpin bends* – sori, Catrin! – cyrhaeddon ni Wersyll Llanmadog mewn un darn, a jyst cyn i'r dyn bach hyfryd o Tesco gyrraedd â'n bwyd ni am hanner yr wythnos – onid yw siopa ar y We yn beth grêt!

Setlo i fewn wedyn a darganfod rhyfeddodau a syrpreisys cegin newydd. Fy hoff degan i oedd y bwrdd gwyn ar gyfer sgwennu bwydlenni'r wythnos a negeseuon di-ri (ie, yr athrawes ynof, mae'n flin 'da fi!) Er bod gennym yr her

o weithio mewn cegin newydd a darganfod rhai gwahaniaethau rhyngddi a chegin Quinta y llynedd, yr un oedd y tîm o gogyddion – ein harweinyddes a'n bos Catrin, a Gwenllian a Mari Elin. Roedd hi'n wirioneddol hyfryd i gyd-weithio â'r tair yma eto, a gweld y fath gariad, amynedd, hiwmor a gras yn gweithredu o fewn pedair wal y gegin. Hoffwn ddiolch hefyd am y gwersyllwyr hyfryd wnes i gyfarfod â nhw (rhai wynebau newydd ymysg y cyfarwydd) a'u gwerthfawrogiad am y bwyd, ac am gael gwasanaethu tîm annwyl, gweithgar o arweinyddion, swogs a chaplan. Diolch i Dewi yn y cyfarfodydd, Emyr yn yr epilogau a'r swogs wrth gyfrannu yn y boreau am ein bwydo ni'r Cwcs â chig a llaeth o'r Gair.

Dyma grynodeb o'r uchafbwyntiau:

1. Clywed am ymateb rhai o'r gwersyllwyr i'r Efengyl
2. Gweithio gyda tri Christion hyfryd
3. Cyfarfodydd gweddi boreol y Cwcs
4. Ein *outing* i'r Mwmbwls
5. Bwyta marshmallows o amgylch y tân
6. Y bwrdd gwyn !!
7. Dwylo oedd ddim yn drewi o winwns gymaint â llynedd

Amanda Griffiths

Gwersyll Bryn y Groes

Wrth edrych yn ôl ar wersyll Bryn y Groes 2010, mae nifer o bethau yn aros yn y cof. Roedd anwyldeb y gwersyllwyr yn hyfryd, ac roedd bod yn eu cwmni yn fraint. Mae bod yn rhan o dîm bob amser yn fendith ac roedd hynny'n nodwedd unwaith eto eleni, yn enwedig oherwydd cariad amlwg y swyddogion at y bobl ifanc ac at ei gilydd. Ar nodyn personol, roedd hwb wrth sylweddoli bod pedair o'r pum swyddog ar ochr y merched yn wersyllwyr pan oeddwn i'n arwain ym Mryn y Groes rai blynyddoedd yn ôl.

Mae lle i ddiolch i Dduw eleni eto am ei ofal a'i fendith yn ystod y gwersyll. Ond, mae un baich wedi aros gyda mi ar ôl yr wythnos,

llun: www.freeimages.co.uk

sef ein cyfrifoldeb a'n braint ni fel eglwysi i weddïo dros y bobl ifanc annwyl yma, a rhoi pob gofal ac anogaeth iddynt.

Gwydion Lewis

Cynhadledd MEC, Aberystwyth

'Sgrifenna argraffiadau o Aber,' medde'r golygydd. 'Beth?' meddwn i. "Roedd hwnna dri mis yn ôl. Alla' i ddim cofio beth ddigwyddodd wythnos diwethaf heb sôn am fis Awst!'

Ie, ar ôl tri mis mae'r manylion wedi pylu. Mae gennyf ryw frith gof o gael amser da, cofio siarad gyda llawer, cael paneidiau mewn caffis, mwy o siarad, sŵn y môr, cri'r gwylanod. Ond a oedd y cwbl yn fwy na gwyliau da? Ar ôl tri mis, a adawyd argraff barhaol arna' i? Wel, do, yw'r ateb. Fe cymerais nodiadau o'r prif anerchiadau ac rwyf wedi troi atynt sawl tro ers hynny.

Derek Adams oedd y prif siaradwr a'i destun oedd Teyrnas Dduw. Cawsom ein hatgoffa fod Duw yn teyrnasu nawr a dylai hyn fod yn realiti yn ein bywydau. Iesu yw ein Brenin ac mae ganddo bob awdurdod. Mae'n achosi'r da ac yn caniatáu y drwg. Mae pobl y Deyrnas yn deyrngar i'r Brenin, yn ei roi o flaen popeth, arian, eiddo neu deulu. Maent heb gywilydd o Grist ym mhob amgylchiad, diflas neu dda, ac yn caru ei gilydd er amryw fân wahaniaethau. Mae'r Deyrnas yn dal i dyfu, o'n mewn drwy i ni ddarllen, gweddïo a brwydro materoliaeth. Mae'n tyfu yn fyd-eang hefyd drwy'r arfau mae'r Ysbryd Glân yn eu rhoi i ni, sef gair Duw, gweddi a gostyngeiddrwydd y dinasyddion. Ryw ddiwrnod daw cyflawniad y Deyrnas. Bydd pob grym arall yn diflannu. Duw fydd oll yn oll. Cawn gwrdd â'r Brenin; Ef fydd yn ein barnu. Bydd y masg a wisgom drwy'r ddrama yn cael ei dynnu. Cawn sefyll yn y golau llachar a'n llosgi'n llwyr, neu cael ein gogoneddu a bod yn gyd-etifeddion â Christ. Felly buddsoddwn ein holl egni a rhoi'n holl fywyd i'r Deyrnas.

Cofiaf i ni orffen ar uchafbwynt o ganu 'Mawr yw Ef yn y nef / Ar ei orsedd gadarn gref', a phawb a oedd yno yn teimlo hynny i'r byw.

Rhian Williams

Adolygiad

Leri George

Beth sy'n dod i'ch meddwl pan fyddwch chi'n meddwl am eilunod? Baal ac Asteroth a'r delwau eraill sy'n cael eu haddoli yn amserau'r Beibl, fwy na thebyg. Gwyddwn, wrth gwrs, y gall unrhyw beth – boed da neu ddrwg – droi yn eilun inni os ydyw'n hawlio'r lle pennaf yn ein calonnau. Er hynny rhaid cyfaddef nad yw eilun-addoliaeth, sef thema'r llyfr hwn gan Tim Keller, ddim yn fater rwyf wedi meddwl amdano'n aml iawn. Esbonia Keller bod pob pechod mewn gwirionedd yn deillio o eilun-addoliaeth, o dorri'r gorchymyn cyntaf i garu Duw gyda'n holl galon a'n holl enaid.

Cawn ein cyflyrru a'n herio yn *Counterfeit Gods* i chwilio'n calonnau i ddarganfod beth yw'r duwiau ffug rydym yn eu coleddu yn ein calonnau. Ei ddiffiniad o dduw ffug yw unrhyw beth sy mor ganolog a phwysig yn fy mywyd nes y byddwn, wrth ei golli, yn teimlo bod bywyd yn colli ystyr. Gofynna'r awdur inni ysyried ein bywyd meddyliol: ein hoff ddymuniadau, ein hofnau mwyaf, er mwyn darganfod yr eilunod yn ein bywyd rydym yn aml yn rhy ddall i'w gweld. Yn anymwybodol inni efallai, ein cariad at yr eilunod hyn sy'n aml yn peri inni bechu (y celwydd bach i amddiffyn ein enw da, neu'r eiddigedd at gyfoeth eraill sy'n codi am ein bod ni'n dibynnu ar arian i wneud inni deimlo'n ddiogel ac yn sicr mewn bywyd).

Efallai eich bod chi'n meddwl bod y llyfr yma'n swnio'n *intense* ac yn seicolegol iawn! Dim o gwbl. Storïau pobl go iawn sy'n dirio'r astudiaeth yma ar eilun-addoliaeth. Canolbwynt pob pennod yw cymeriad o'r Beibl, ac wrth ystyried un hanesyn ar ôl y llall mae Keller yn troi ei sylw at esiamplau o'r gwahanol eilunod a all ein caethiwo. Cawn olwg ffres ar y cymeriadau cyfarwydd hyn hefyd drwy eu hystyried yn y ffordd yma:

Sacheus, a oedd, tan iddo gyfarfod â'i Waredwr, yn fodlon aberthu enw da a chwmnïaeth er mwyn profi diogelwch a sicrwydd ffals cyfoeth;

Namaan, y dyn llwyddiannus a oedd yn ei chael hi mor anodd i dderbyn iachawdwriaeth rad, gan ei fod wedi arfer ei brofi ei hun a gweithio'n galed i ennill statws a'i gadw;

Leah, yn profi'r diflastod o osod ei chalon ar ennill serch ei gŵr, Jacob, a oedd yn caru un arall;

Nebuchodnossor, yn gaeth i bŵer a'r balchder a'r statws roedd ei bŵer daearol yn eu rhoi iddo.

Jona, a frwydrodd â sawl eilun (llwyddiant ei weinidogaeth, buddiannau cenedl Israel a'i oruchafiaeth moesol dros bobl Ninefe) wrth anufuddhau i ewyllus Duw i'w fywyd.

Beth a wnawn ni felly? Sut y gallwn ni ymwrthod â'r eilunod hyn? Wrth edrych tu mewn mae'r sefyllfa'n edrych yn anobeithiol ('*the human heart is a factory that mass produces idols*'). Un peth dydw i ddim yn ei hoffi am y llyfr hwn yw'r is-deitl, *When the Empty Promises of Love, Money and Power Let You Down*. Mae'n swnio fel rhyw lawlyfr *self-help* sy ddim yn apelio ryw lawer! Y gwrthwyneb i hynny yw neges y llyfr: wrth ein hunain, ni fedrwn wneud dim. Fedrwn ni ddim tynnu'r duwiau hyn o'n calonnau, dim ond eu disodli gan y gwir Dduw. Dyma'r un sy'n haeddu ein haddoliaeth ac sy'n rhoi inni, trwy ei Fab, hunaniaeth lawn, derbyniad, cariad a diogelwch tragwyddol. Dyfynna Keller Thomas Chalmers: '*The only way to dispossess the heart of an old affection is by the expulsive power of a new one.*'

Gwelwn sut y gwnaeth cariad a chyfeillgarwch ddi-amod Crist ryddhau Sacheus i allu rhoi yn hael. O wybod bod yr Arglwydd wedi gweld ei thristwch medrai Leah fynegi ei phenderfyniad ar enedigaeth ei mab olaf i foli'r Arglwydd o hynny allan ar ôl blynyddoedd o geisio ffafr ei gŵr trwy eni plant iddo.

Yr hyn sy'n dod nôl i'r cof dro ar ôl tro wrth ddarllen y llyfr byr, heriol hwn yw geiriau Awstin: '*... our hearts are restless until they find their rest in thee*'.



Counterfeit Gods, Tim Keller
£8.99 clawr meddal

Newyddion

Blas
Bu newid yn y trefniadau ar gyfer oedfaon yn yr Eglwys Newydd dros y tymor diwethaf. Yn lle cyfarfod unwaith y mis ar nos Sul am oedfa, fe drefnwyd cyfres o gyfarfodydd mwy anffurfiol bob nos Fercher dan y teitl *Blas*…Bob yn ail wythnos cynhelir cyfarfod mewn tŷ yn y pentref ar gyfer astudiaeth, a'r wythnos arall cynhelir noson yng nghwmni siaradwyr / cantorion (!) ym mwyty'r Mediterraneo. Am fwy o wybodaeth ar *Blas*…, ewch i'r dudalen Facebook.

Priodasau
Bu'n dymor y priodasau, ac fe hoffai *Cwmpawd* longyfarch y canlynol yn wresog: Steffan a Jenny Elis, 'Polu a Gwenno Uhi ac (erbyn i chi ddarllen hwn) Emyr a Catrin James. Pob bendith i Elain Llwyd ac Aron Treharne wrth iddyn nhw baratoi i briodi ym mis Rhagfyr.

Arholiadau
Mae'r Haf yn teimlo fel oes yn ôl erbyn hyn – ond dyma'r cyfle cyntaf i *Cwmpawd* longyfarch Owain James, Aled Lewis, Luned Evans a Gerwyn Lewis ar eu canlyniadau TGAU, UG a lefel A. Da iawn chi!

Cydymdeimlo
Cofiwn am Meleri Perkins a'i theulu ar ôl iddyn nhw golli modryb i Meleri yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Phil a'r teulu hefyd wedi marwolaeth chwaer-yng-nghyfraith Phil.

Croeso Nôl!
Cawsom gyfle yn y cinio capel diweddar i glywed ychydig am daith Dr Chris Woolley i Uganda i ymweld ag ysbyty sydd â chysylltiad ag ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr.

Trefniadau Nadolig:

Nos Sul – Rhagfyr 5
Oedfa garolau

Nos Sul – Rhagyfr 12
Oedfa garolau yn yr Eglwys Newydd

Pnawn Sadwrn – Rhagfyr 11
Parti Nadolig

Bore Sul - Rhagfyr 19
Gwasaneth Carolau y teulu

Bore Sadwrn - Rhagfyr 25
Gwasanaeth Dydd Nadolig

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 5.30 - 6.30pm
Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.40pm
Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
Clwb y Bobl Ifainc | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys, ar wahan i Glwb Hapus Awr a gynhelir yn Ysgol Gynradd Melin Gruffydd.

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

Tachwedd	*21*	*Emyr James / Trystan Hallam*
	28	*Rhodri Jones / Trystan Hallam*
Rhagfyr	*5*	*Gwynn Williams / Noson Garolau*
	12	*Trystan Hallam / i'w drefnu*
	19	*Oedfa Garolau / Oedfa Anffurfiol*
	25	*Gwynn Williams*
	26	*Gwynn Williams / Oedfa Anffurfiol*

Suliau i'w nodi yn y flwyddyn newydd -
Ionawr 23 Steffan Jones
Chwefror 27 Robert Thomas

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org